# Sesiwn 1
# Stori Duw

## Nod

**Erbyn diwedd y sesiwn hon, fe ddylai aelodau'r grŵp fedru:**

- Deall grym storïau.
- Ystyried a myfyrio ar y rhwystrau a'r amharodrwydd yn eu bywydau'u hunain wrth feddwl am rannu'u ffydd.
- Dechrau llunio a mynegi'r hyn ydy gwraidd calon stori Duw.

### Cyn y sesiwn...

**Darllenwch: Story Bearer - Penodau 1-5**

## Croeso

**Ceisiwch baru llinellau agoriadol y storïau canlynol mewn llyfrau neu ffilmiau â'i gilydd:**

- When he was nearly thirteen, my brother Jem got his arm badly broken at the elbow. (To Kill a Mockingbird)
- Once upon a time, there was a lovely princess. But she had an enchantment upon her of a fearful sort, which could only be broken by love's first kiss. (Shrek)

- It is a truth universally acknowledged that a single man in possession of a good fortune must be in want of a wife. (Pride and Prejudice)
- Whenever I get gloomy with the state of the world, I think about the arrival's gate at Heathrow airport. (Love Actually)
- Mr and Mrs Dursley of number four, Privet Drive, were proud to say that they were perfectly normal, thank you very much. (Harry Potter and the Philosopher's Stone)
- Mmm. I look good. I mean, really good. Hey, everyone! Come and see how good I look! (Anchorman)

# Trafodwch

- Beth oedd y ffilm gyntaf ichi weld erioed?
- Ydych chi'n cofio pa rai oedd y storïau, cartŵns a'r sioeau teledu fuoch chi'n eu gwylio pan oeddech chi'n blentyn?

Nod y gyfres hon ar gyfer grwpiau bach ydy ein helpu i fod mor effeithiol ag sy'n bosib inni fod wrth rannu'n ffydd â'n ffrindiau. Mae wedi'i seilio ar y cynsail y gall efengylu fod yn berthynol, naturiol ac yn llawer haws nag oedden ni'n amau ar y dechrau. Ac mae'n troi o amgylch y ffaith fod ganddon ni stori i'w rhannu, i'w throsglwyddo. Cyflwyniad i storïau ydy'r sesiwn hon. Erbyn ei diwedd, fe fydden ni wedi ystyried beth ydy'r stori Gristnogol a'r hyn y dylen ni/gallen ni ei ddweud os oes rhywun yn gofyn inni esbonio Cristnogaeth.

## Gwyliwch...

Yr Awdur - [https://youtu.be/cbaM51CvQac](https://youtu.be/cbaM51CvQac)

## Y Beibl...

Luc 15: 1-32

# Discuss

- Yn Story Bearer, pennod 2 – Heintus, mae Phil yn disgrifio'r rhesymau pam fod cymaint o bobl yn ei chael hi'n anodd rhannu eu ffydd a pham bod y neges Gristnogol yn methu ag ymledu trwy gyfeillgarwch. Pa un o'r rhwystrau canlynol sy'n taro cloch gyda chi, tybed, a pham?
    - o Agosrwydd – diffyg cyswllt ystyrlon gyda phobl sydd angen clywed y stori.
    - o Grym – diffyg ymddiried yng ngrym y neges.
    - o Amharodrwydd – ddim yn dymuno rhannu'r stori.
    - o Cyfle – diffyg cyfleon ystyrlon i rannu'r neges.
- Ym mha ffyrdd ydych chi'n meddwl y gellwch oresgyn rhai o'r rhwystrau hyn?
- Ym mhennod 3, mae Phil yn trafod y geiriau a ddefnyddiodd eraill wrth iddo dyfu ifyny a'r effaith a gawson nhw. Beth oedd y geiriau a ddaw i'r cof yn eich bywyd chithau - geiriau a fu'n anogaeth neu rai a fu'n gyfrwng eich bychanu a'ch tanseilio?
- Trosolwg o stori Duw ydy pennod 4. Petaech chi'n 'Dywysydd trwy'r Beibl', i ba lefydd o bwys fasech chi'n arwain eich grŵp ar y daith? Pam bod y digwyddiadau neu'r mannau hynny yn bwysig i chi?
- Mae Luc 15 yn cyflwyno inni rai storïau lle mae Iesu'n crisialu craidd ei neges. Beth ydy prif hanfodion y storïau hyn? Pa adegau eraill a geir yn y Beibl sy'n gwneud hyn?

# Gweithgaredd

**Esboniwch mai un o amcanion y sesiwn hon ydy galluogi pob aelod o'r grŵp i rannu stori Duw ac mai pwrpas y gweithgaredd hwn ydy ystyried sut fyddai modd inni ei chyfleu a'i chofio.**

## Gwyliwch...

Falling Plates - https://www.youtube.com/watch?v=KGIx11BxF24

## Darllenwch y dyfyniad hwn o'r llyfr...

***I am not going to give you a set formula of how you might squash and squeeze the story of God into a short summary, but allow you to choose something that suits your personality and context. You may find that using the four simple truths work best for you, or the story of the prodigal, or a personal anecdote like 'Caleb and the broken coffee cup.' My encouragement to you is to have at least one way of answering the question, which may be to your friend the most important words they ever hear. (Story Bearer tud. 46.)***

Yn y llyfr, mae Phil yn rhoi ychydig o enghreifftiau o storïau a sut i ddweud stori Duw. Mae'r fideo'n rhoi inni bersbectif arall ar yr Efengyl. Mewn grwpiau o 2 neu 3, trafodwch sut fasech chi'n ateb y cwestiynau: 'Beth ydy'r ffydd Gristnogol yma? Fedrwch chi ei esbonio imi?' Efallai y gall fod o gymorth i aelodau i nodi'r prif bwyntiau ar bapur neu hyd yn oed eu hateb yn llawn.

Yna, rhowch gyfle i rai pobl roi adborth i'r grŵp ehangach ynghylch yr hyn y basen nhw'n ei ddweud petai un o'u cyfeillion yn gofyn y cwestiynau hynny. Fe ddylai'r ateb fod mor naturiol â phosib. Nid traddodi darlith neu anerchiad ydych chi ond, yn hytrach, yn esbonio'n naturiol mewn sgwrs agos-atoch. Fe ddylai tôn a hyd yr ateb adlewyrchu hynny. Ceisiwch annog aelodau'r grŵp i weithio ar geisio gofio stori Duw yr wythnos hon, gan hyd yn oed ymarfer paratoi beth i'w ddweud os oes gofyn esbonio'r newyddion da i rywun. Eglurwch y bydd pobl yn cael cyfle, heb bwysedd na gorfodaeth (!!), i roi tro ar yr hyn maen nhw wedi bod yn ymarfer ar ddechrau'r sesiwn nesaf.

# Ymateb

Mae hi mor bwysig inni fel Cristnogaion i beidio â byth colli golwg ar ryfeddod stori Duw ac i wybod a chydnabod ein bod yn chwarae ein rhan ynddi heddiw. Ar ddiwedd Sesiwn 1, ceir cyfnod i fyfyrio ar hyn droson ein hunain.

Mae Salm 145 yn crynhoi llawer o'n hamcanion yn y sesiwn hon.

## Darllenwch Salm 145:3-6...

***Mae'r ARGLWYDD yn fawr, ac yn haeddu ei foli!***

***Mae ei fawredd tu hwnt i'n deall ni.***

***Bydd un genhedlaeth yn dweud wrth y nesa am dy weithredoedd,***

***ac yn canmol y pethau mawr rwyt ti'n eu gwneud.***

***Byddan nhw'n dweud mor rhyfeddol ydy dy ysblander a dy fawredd, a bydda i'n sôn am y pethau anhygoel rwyt ti'n eu gwneud.***

***Bydd pobl yn sôn am y pethau syfrdanol rwyt ti'n eu gwneud,***

***a bydda i'n adrodd hanes dy weithredoedd mawrion.***

Rhowch annogaeth i'r grŵp gael hyd i'r darn yma yn eu Beiblau. Cymerwch amser i ddarllen yn bwyllog drwyddo a myfyrio arno'n dawel. Gellid, efallai, chwarae ychydig o gerddoriaeth addoliad yn y cefndir wrth wneud.

# Gweddïwch

O Dad, diolch iti am dy stori. Diolch ein bod, trwy gyfrwng y stori, yn dod i nabod yr Awdur yn well. Helpa ni fod yn Story Bearers, pobl y newyddion da mewn byd o newyddion drwg, a rho ddewrder a hyder inni rannu dy stori'n dda ymysg y rhai hynny o'n cwmpas. Boed inni wneud hynny gyda'r bywydau rydyn ni'n eu byw a chyda'r stori rydyn ni'n ei chyfleu yn y ffordd rydyn ni'n byw a bod, mewn gair a gweithred.

Amen.